CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION MAWRTH 15, 2016

Cyfarfod Cyngor Cymuned Brithdir, Llanfachreth a Rhydymain a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Lanfachreth
Nos Lun, Mawrth 15, 2016 am 7:00 o'r gloch.

Presennol Cynghorwyr: Peredur Jenkins, Meurig Ashton, Gerallt Griffith a Llion Rh. Williams.

1.Croeso'r Cadeirydd

Croesawyd pawb oedd yn bresennol.

2. Ymddiheuriadau: Rhun Prys Jones (Cadeirydd), Geraint Evans, Emlyn Roberts, Barry Jones a Henry Edwards,

3. Datgan diddordeb.

Nid oedd neb yn datgan diddordeb.

4. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Chwefror 16, 2016

Cynigwyd ac eiliwyd fod y cofnodion yn gywir.

5. Materion yn codi o'r cofnodion Chwefror 16, 2016

Eitem 8.b. Ni ddefnyddwyd siec am £300. Felly, y cyfanswm rhoddwyd i sefydliadau oedd £3,700.

6. Gohebiaeth

a. Llythyr (18/2/2016) oddi wrth Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol. Mae eu hadroddiad blynyddol 2016/17 ar gael ar eu gwefan.

b. Llythyr (15/2/2016) oddi wrth Omwdsmon. Maent yn rhoi gwybod mae copi o Egwyddorion Gweinyddu Da a Rheoli Cofnodion yn Dda ar gael ar eu gwefan.

c. Ffurflen (Chwefror 2016) oddi wrth Tower Mint Ltd i archebu medalau i ddathlu pen-blwydd Ei Mawrhydi Elizabeth yn 90. Amgâu mae sampl o'r fedal.

ch. Llythyr (2/3/2015) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am gwrs Cyllid Llywodraeth Leol ar ddydd Mawrth 22/3/2016 yn Llyfrgell Rydd, Dolgellau am 6.30. Cost y cwrs yw £35 y person.

d. Llythyr (3/3/2016) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am gwrs Dealltwriaeth o'r Gyfraith ar ddydd Mawrth 12/04/2016 yn Theatr y Ddraig, Abermaw am 6.30. Cost y cwrs yw £35 y person.

dd. Llythyr (2/3/2016) oddi wrth Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd y pris i lenwi un bin halen yn £156, y pris i lenwi 3 neu mwy o finiau halen yn £80 y bin. Bydd y Cyngor Cymuned yn rhoi gwybod i'r Swyddog Cyswllt pa finniau i'w llenwi. Bydd pob bin yn cael ei archwilio a'i lenwi cyn tymor y gaeaf 2016 a bydd lleoliad a rhif y bin yn cael ei roi cyn Hydref 1.

e. Llythyr (2/3/2016) oddi wrth Llywodraeth Cymru gyda dogfen 'Cod ymddygiad enghreifftiol ar gyfer aelodau ac aelodau cyfetholedig â hawliau pleidleisio' sy'n dod i rym ar 1 Ebrill 2016.

f. Llythyr (14/3/20167 oddi wrth Adran Rheoleiddio, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd ffordd tu cefn i Garth Wnion, Brithdir ar gau o 14/3/2016 am dri diwrnod. Mae hyn oherwydd gwaith argyfwng ar siambr uniadau.

7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

a. Ceisiadau cynllunio:

i. NP5/54/449. Gosod colofn telathrebu12m o uchder gyda offer ategol ynghyd a chabanau offer ar ran cwmni EE Cyf. (yn lle 'r mast presennol). Tir yn Coed Rhos Lwyd, Rhydymain.

Penderfynwyd cefnogi'r cais

ii. NP5/54/T25B. Diddymu Cytundeb Adran 106 dyddiedig 17/12/1999 mewn perthynas â chais cynllunio NP9/54/T258. Y Beudy, Dolgamedd Farm, Brithdir.

iii. NP5/54/T258A. Trosi allandy i lety gwyliau a gosod tanc septig. Y Beudy, Dologamedd Farm, Brithdir.

Ni roddwyd penderfyniad ar ii. a iii. ohrwydd nid oedd manylion ar gael.

b. Deddf Cynllunio Gwlad a Thref, 1990. Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref, (Gweithdrefn Rheoli Datblygiad) (Cymru) 2012.

i. NP5/54/132D. Mae'r Awdurdod yn caniatáu Cynllun trydan dŵr arfaethedig yn cynnwys adeiladu argae, adeilad tyrbin, a gosod pibellau uwch y ddaear. Tir yn Tŷ March Gwyn, Brithdir.

ii. NP5/54/447. Mae'r Awdurdod yn caniatáu Ailwampio strwythurol yn cynnwys gosod cladin allanol. 1 & 4 Hengaer, Brithdir.

c. Dogfen 'Papur Trafod ar gyfer adolygiad cynllun datblygu lleol Eryri - Mawrth 2016'. Mae'r broses o adolygu'r cynllun datblygu lleol Eryri wedi cychwyn ac maent angen ein barn arno cyn Ebrill 22, 2016.

8. Materion Ariannol

a. Llythyr (18/2/2016) oddi wrth Pwyllgor Apêl Dolgellau - Meirion Sioe Frenhinol Cymru 2016 yn diolch am ein rhodd o £250.

b. Llythyr (20/2/2016) oddi wrth Pwyllgor Neuadd Rhydygorlan 18/2/2016)yn diolch am ein rhodd o £500.

c. Lythyr (22/2/2016) oddi wrth Ysgol Ieuan Gwynedd yn diolch am ein rhodd o £200.

ch. Lythyr (23/2/2016) oddi wrth Ysgol Gynradd Brithdir yn diolch am ein rhodd o £200.

d. Llythyr (24/2/2016) oddi wrth Papur Llafar y Deillion Dolgellau a'r Cylch yn diolch am ein rhodd o £50.

dd. Llythyr (23/2/2016) oddi wrth Urdd Gobaith Cymru yn diolch am ein rhodd o £100.

e. Llythyr (23/2/2016) oddi wrth Tŷ Gobaith yn diolch am ein rhodd o £50.

f. Llythyr (23/2/2016) oddi wrth Ambiwlans Awyr Cymru yn diolch am ein rhodd o £200.

ff. Llythyr (25/2/2016) oddi wrth Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Meirionnydd yn diolch am ein rhodd o £250.

g. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29 Chwefror, 2016: £1,135.60.

h. Balans yn y banc ar 29 Chwefror, 2016: £5,697.41.

9. Adroddiad Cynghorydd Peredur Jenkins

a. Mae Peredur Jenkins am gysylltu â Cyfoedd Naturiol Cymru a'r Cyngor Sir ynglŷn â Ffordd Lefel sydd ar gau.

10. Unrhyw fater arall

a. Penderfynwyd rhoi gwybod i Adran Rheoleiddio, Gwasanaeth Amgylchedd, Cyngor Gwynedd mae angen clirio coed sydd wedi disgyn dros lwybr rhwng Hendre, Hermon a Cyplau, Abergeirw.

b. Yn Hydref 2014 penderfynwyd gwneud ymoliadau i gael mainc a'i gosod wrth Ysgol Brithdir. Chafwyd prisiau am fainc. Ar Mawrth 2015 derbyniodd Grŵp Cynefin, Dinbych ein cais am grant i brynu'r fainc ac roedd y grant am £200 gyda'r amod bod y fainc wedi ei osod cyn Medi 2015.